PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 8 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Lay a/ac Keith Parry |

36 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Congreve a Murphy

37 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion 11 Hydref 2017 fel cofnod cywir.

38 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

39 : DEISEBAU

Cais rhif, 17/01547/MNR, 9 Heol Fair, Llandaf
Cais rhif, 17/00711/MNR, Cefn 19 Fairwood Road
Cais rhif, 17/01435/MNR, 23-24 Wordsworth Avenue
Cais rhif, 17/00406/MNR, The Caerau, Bishopston Road
Cais rhif, 17/01765/MNR, 225 Albany Road

Mewn perthynas â 225 Albany Road a 19 Fairwood Road siaradodd y deisebwyr, ond ni wnaeth yr ymgeiswyr/asiantau ymateb.

40 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Penderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir i'r Pwyllgor hwn ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

# CEISIADAU A GANIATEIR

17/00111/MJR – PLASNEWYDD

199-209 HEOL Y PLWCA
Adeiladu datblygiad llety preswyl i fyfyrwyr newydd gyda 5 i 8 llawr (yn ogystal ag ystafell blanhigion ar y to) gan gynnwys mannau amwynderau; iard mewnol preifat

wedi'i dirweddu a dwy uned fasnachol fechan ar y llawr daear (Dosbarth A1 neu A2 neu A3)

17/00711/MNR – Y TYLLGOED

ANNEDD ARFAETHEDIG YNG NGHEFN 19 FAIRWOOD ROAD
Materion a gedwir yn ôl mewn perthynas â chais 11/1285/DCO a cheisiadau 14/01330/DCO a 13/2253/DCO

17/01850 – BUTETOWN

TIR GER HEOL HEMINGWAY, GLANFA'R IWERYDD
Adeiladu amgueddfa, gan gynnwys caffi, ystafelloedd arddangos, storfeydd casgliadau a gofod swyddfa yn nhir ger Heol Hemingway.

17/1907/MJR – CATHAYS

Y TOLLTY A CHYN-WESTY'R YORK, HEOL Y TOLLTY.
Caniatâd Adeilad Rhestredig

17/01547/MNR –LLANDAF

9 HEOL FAIR
Estyniad ochr deulawr a throsiad i greu tri annedd dwplecs

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

17/00110/MJR – LLYS-FAEN

TIR GER BRYNCOED, CHERRY ORCHARD ROAD
Cynnig i adeiladu 3 annedd ar wahân, mân ddiwygiadau i anheddau presennol, mynediad safle newydd a chyfleusterau parcio. Darpariaeth barcio newydd i anheddau presennol y tu blaen i Cherry Orchard Road.

17/01300/MJR – BUTETOWN

EVANS HALSHAW CITROEN GYNT, 1 EAST BAY CLOSE, GLANFA'R IWERYDD
Adeiladu bloc myfyrwyr i ffurfio 711 o ystafelloedd myfyrwyr a llety cysylltiedig ynghyd â thirweddu a maes parcio.

17/1906/MJR – CATHAYS

Y TOLLTY A CHYN-WESTY'R YORK, HEOL Y TOLLTY

Ailddatblygu'r safle i gynnig gwesty â 248 o welyau (Dosbarth C1) a bwyty cysylltiedig (Dosbarth A3) gan gynnwys dymchwel yn rhannol y Tollty, cadw ac adfer wyneb y Tollty, dymchwel Gwesty'r York gynt a mynediad, parcio a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar amod ychwanegol a fydd yn nodi:

"Ni chaniateir cyrraedd, gadael, llwytho na dadlwytho cerbydau cludo rhwng 20:00 a 08:00.

# CEISIADAU A WRTHODWYD

17/00406/MNR – CAERAU

THE CAERAU, BISHOPSTON ROAD
Dymchwel y tafarndy ac adeiladu tair uned manwerthu gyda chyfleuster parcio cysylltiedig.

Rheswm:

(i) Ni fyddai ymddangosiad allanol, maint a graddfa'r datblygiad yn gweddu â chymeriad a chyd-destun yr ardal leol, sy'n groes i bolisi KP5(i) Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

(ii) Mae'r cynnig yn groes i bolisi KP5(x) Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd oherwydd y byddai'n andwyol i fwynderau eiddo cyfagos o ran sŵn a tharfu fydd yn cael ei greu gan weithgareddau yn yr eiddo, h.y. cwsmeriaid yn gadael yr eiddo a cherbydau cludo'n cyrraedd ac yn gadael yr eiddo.

17/01765/MNR – PEN-Y-LAN

225 ALBANY ROAD
Estyniad i'r cefn, trosiad llofft gyda ffenestri cromen cefn a throsi'r annedd i greu 4 fflat.

Rheswm:

(i) Byddai'r is-raniad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar fwynderau perchnogion a chymunedau cyfagos, a byddai'r effaith gronnol yn effeithio ar fwynderau a chymeriad yr ardal, sy'n groes i ddarpariaethau polisïau KP5 (x) a H5 (iii) y Cynllun Datblygu Lleol.

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

17/01435/MJR – PLASNEWYDD

23-24 WORDSWORTH AVENUE
Dymchwel yn rhannol yr adeiladau presennol a chodi 1 x tŷ 4 ystafell wely ac estyn a throsi i ffurfio 7 fflat annibynnol (3 x 2 ystafell wely a 4 x 1 ystafell wely) gyda pharcio ar y safle, storfa beics, ysbwriel a chyfleusterau amwynder.

Rheswm: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

17/01801/MJR – PONTPRENNAU/PENTREF LLANEIRWG

DROKE HOUSE, 948 HEOL CASNEWYDD
Codi 33 fflat fforddiadwy, mynediad a gwaith cysylltiedig.

Rheswm: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

17/01935/MJR – TRELÁI

THE MICHAELSTON, 105 MICHAELSTON ROAD
Newid defnydd o dafarn (A3) i fanwerthu (A1) gydag estyniad 'cefn y tŷ' gyda gwaith i adnewyddu’r fflat bresennol ar y llawr cyntaf, bloc aml lawr, aml ddefnydd newydd gyda manwerthu ar y llawr gwaelod (A3) a 9 fflat uwchben gyda newidiadau cysylltiedig i'r tirlun a pharcio.

Rheswm: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

41 : CEISIADAU A BENNIR GAN Y PWERAU DIRPRWYEDIG

Hydref 2017